

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

Dydd Mawrth 14 Hydref 2014

Ystafell Gynadledda 21 – Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol:

Jenny Rathbone AC (Cadeirydd)
Jeff Cuthbert AC
John Griffiths (Aelod Lleyg)
Angela Magny (Gofal Diabetes Roche)
Penny Griffiths (Grŵp Cymorth gan eraill sydd â Diabetes)
Kinsey Jones (Eiriolwr Clinigol)
Julia Platts (Arweinydd Clinigol Cenedlaethol)
Jason Harding (Diabetes UK Cymru)
Dr Lindsay George (Arweinydd Clinigol, Diabetes, Ysbyty Llandochoau)
Robert Koya Rawlinson (Novo Nordisk)
Lesley Jordan (Input)
Ben Everard (Sanofi)
Paul Coker (Eiriolaeth Cleifion Input)
Helen Nicholls (Cymdeithas Ddeieteg Prydain)
Greg Titley (Aelod Lleyg)
Scott Cawley (Podiatreg Cymru Gyfan)
David Chapman (yn cynrychioli Medtronic)
Ros Meek (Medtronic)
Robert Wright (Aelod Lleyg)
Helen Cunningham (Swyddfa Jenny Rathbone AC)
Mirriam Dupree (Swyddfa Jenny Rathbone AC)
Dai Williams (Diabetes UK Cymru)

Ymddiheuriadau

Mohammad Asghar AC
Wendy Gane (Cymorth gan eraill sydd â Diabetes)
C Hugh Thomas (Fferylliaeth Gymunedol Cymru)
David Miller-Jones (Cymdeithas Dermatoleg mewn Gofal Sylfaenol - PCDS)
Yvonne Johns
Jonathan Hudson (Astrazeneca)
Sarah Davies (Canolfan Feddygol Woodlands, Caerdydd)
Pip Ford (Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi)

Hoffai'r grŵp trawsbleidiol ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth:



Cyflwyniadau

Croesawodd Jenny Rathbone AC y rhai a oedd yn bresennol i ddegfed cyfarfod y grŵp yn y pedwerydd Cynulliad. Dosbarthwyd cerdyn i Wendy Gane i ddymuno gwellhad buan iddi.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunodd y grŵp ar gywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Materion yn codi

a) Cynllun Cyflenwi Bwrdd Iechyd Powys

Rhoddodd Robert Wright wybod i'r aelodau am ymateb negyddol cychwynnol y Cynghorau Iechyd Cymuned mor ddiweddar â mis Medi. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod a drefnwyd gan Russell George AC, rhwng Dai Williams a Robert, a dau reolwr o Fwrdd Iechyd Lleol Powys, newidiodd eu safbwynt yn sylweddol a chytunwyd i adfer y Grŵp Cynllunio a Chyflawni ar gyfer Diabetes a'r Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes. Rhoddodd Bob wybod i'r aelodau ei fod wedi cyflwyno deiseb i'r Pwyllgor Deisebau heddiw, yn galw ar Fwrdd Iechyd Lleol Powys i adfer y ddau grŵp. Croesawodd y Grŵp safbwynt diwygiedig y Bwrdd Iechyd.

2. Cyflawni ar gyfer Diabetes - Dr Julia Platts; Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Diabetes

Croesawodd Jenny Julia Platts i'w rôl newydd ac i'r cyfarfod. Rhoddodd Julia amlinelliad o ddatblygiadau diweddar a nododd y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Ar hyn o bryd mae'r Grwpiau Gweithredu Cymru Gyfan (AWIG) yn llunio safonau a argymhellir gan ddefnyddio'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes (CDA) a bydd ynddynt gamau gweithredu ar gyfer eu hargymell i holl Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd. Mae pedwar maes allweddol yn y Cynllun Cyflenwi:

a) Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd rhwydwaith pediatrig ac mae swydd arweinydd clinigol a swydd weinyddol wedi cael eu hysbysebu. Mae'r safonau sydd ar waith yn Lloegr yn gweithio'n dda a chânt eu rhoi ar waith yng Nghymru. Cynhelir adolygiad ym mis Tachwedd / Rhagfyr a bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi yn y cynllun gweithredu. Bydd Gofal trosiannol o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn flaenoriaeth gan y Cynllun Cyflenwi yn y dyfodol.

b) Atal Diabetes

Bydd y ffocws ar adnabod pobl sydd mewn perygl mawr o ddatblygu diabetes. Bydd system "tynnu sylw" yn helpu meddygon teulu i nodi cleifion y dylid eu profi, a chynigir awgrymiadau ynghylch newidiadau mewn ffordd o fyw iddynt er mwyn eu hatal rhag datblygu Diabetes. Bydd fferyllfeydd hefyd yn sgrinio cleifion.

c) Gofal Effeithiol

Canfu adroddiad diwethaf yr Archwiliad Cenedlaethol Diabetes bod bron i 100% o feddygfeydd meddygon teulu yng Nghymru wedi cymryd rhan. Dim ond tri phractis a ddewisodd beidio â chymryd rhan hyd yma, dau oherwydd problemau meddalwedd nad oedd yn gydnaws, sy'n cael ei gywiro. Gall y feddalwedd gael ei gwneud yn weddus i arferion unigol practisau, a chynhyrchu adroddiadau archwilio ar gynnydd ym mhob practis. Bu oedi o ran penderfyniadau yn ymwneud â chychwyn y gronfa ddata rheoli cleifion SCI-DC, a fyddai'n caniatáu gwell dulliau rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu ledled Cymru. Penderfynir ar y ffordd ymlaen ar ddechrau 2015

d) Gofal Cleifion Mewnol: Mae hyn wedi cael blaenoriaeth uwch yn dilyn nifer o adroddiadau proffil uchel yn y cyfryngau. Dechreuwyd ar waith yn ymwneud â chynlluniau gweithredu ysbytai. Nodwyd angen am fwy o hyfforddiant i staff ar ymwybyddiaeth o ddiabetes. Mae gwaith dadansoddi gwraidd y broblem Marwolaethau & Afiachusrwydd yn cael ei gynnal ledled Cymru a Lloegr, a fydd yn taflu goleuni ar ofal annigonol. Bydd canfyddiadau'r dadansoddiad yn llywio gwaith y Byrddau Iechyd o ran cleifion mewnol yn y dyfodol. Mae chwech allan o ddeunaw o ysbytai yng Nghymru wedi gweithredu cynllun Meddyliwch am Glwcos, ac mae cynllun i'w gyflwyno yng Nghymru gyfan yn 2015.

e) Grymuso Cleifion

Bydd pob Bwrdd Iechyd yn cynnig cynllun DAFNE (Addasu Dosau ar gyfer Bwyta' n Arferol). Daw hwn yn lle'r cynllun DAFYDD (Addasu Dos ar gyfer eich Diet Dyddiol) gan mai dim ond DAFNE sydd â sylfaen dystiolaeth bendant. Mae'r brif gost o gynnig DAFNE yn ymwneud ag amser staff yn ystod yr hyfforddiant. Y targed yw bod 50% o'r holl gleifion sydd newydd gael diagnosis o Ddiabetes math 1 i gwblhau'r cwrs DAFNE. Bydd cleifion Diabetes math 2 sydd newydd gael diagnosis yn cwblhau'r cwrs X-PERT. Y targed yw 20% yn y flwyddyn 1af, 40% yn yr ail flwyddyn a 50% yn y drydedd flwyddyn.

Rhoddodd Julia wybod i'r aelodau y bydd Byrddau Iechyd yn adrodd ddwywaith y flwyddyn ar y cynnydd ar yr argymhellion hyn, a bydd hi'n adrodd yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol hwn.

Cododd Lesley y mater o hawl i gael gafael ar stribedi prawf fel mater o bryder parhaus, oherwydd bod anghysondebau yn swm y stribedi a ragnodir gan feddygon teulu, gyda rhai dim ond yn cyflenwi digon ar gyfer profi'r gwaed am bythefnos. Cytunodd Julia fod hyn yn achos pryder. Cytunodd i adrodd yn y cyfarfod nesaf ynghylch y stribedi prawf a'r broses o gyflwyno'r cynllun Meddyliwch am Glwcos.

3. Mae Grŵp Gweithredu o ran Diabetes Cymru Gyfan

Rhoddodd Jason wybod i'r aelodau fod pob Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o flaenoriaethau, ac yn ymchwilio i'w rhoi ar waith.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr is-grwpiau

Gofal Cleifion Mewnol

Rhoddodd Diabetes UK wybod i'r aelodau fod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu offeryn newydd i fonitro diabetes mewn cleifion mewnol. Gellir gweld yr offeryn yn <http://www.hiw.org.uk/opendoc/249864>. Mae'n offeryn cynhwysfawr sy'n monitro os yw pobl yn cael gofal priodol. Ymhén amser, caiff pob ysbyty ei arolygu gan ddefnyddio'r offeryn hwn. Bydd y 2-3 adroddiad cyntaf yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, a fydd yn darparu ffeithiau gwirioneddol, a gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer trafodaeth ar unrhyw faterion gan y Grŵp.

Trafododd yr Aelodau sut i symud ymlaen â r is-grŵp gofal cleifion mewnol gan fod Julia wedi cytuno i adrodd yn ôl ar yr agwedd hon ar waith y Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan i'r Grŵp Trawsbleidiol. Cytunwyd, er mwyn osgoi dyblygu gwaith, y byddai Julia yn adrodd i'r is-grŵp a byddai'r is-grŵp yn adrodd i'r Grŵp Trawsbleidiol.

Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r is-grŵp gael ffocws ar gleifion, a thrafododd yr aelodau sut y gallent gasglu profiadau cleifion. Dywedodd Julia fod yr archwiliad o gleifion mewnol eisoes wedi casglu profiad cleifion am dair blynedd, a gellid defnyddio'r data hyn. Cytunodd Jason y byddai Diabetes UK yn edrych sut y gallant gasglu profiadau cleifion.

Pympiâu Inswlin

Rhoddodd Dai Williams y wybodaeth ddiweddaraf gan yr is-grŵp, a nodwyd y camau gweithredu a'r argymhellion canlynol:

- Mae Adam Cairns, Cadeirydd y Grŵp Gweithredu ar Ddiabetes Cymru Gyfan (AWDIG) wedi cytuno y dylai darpariaeth Pympiâu Inswlin / CSII fod yn un o dri maes ffocws ar gyfer ail flwyddyn y Cynllun Cyflenwi ar gyfer Diabetes.
- Bydd yr Arweinydd Clinigol Diabetes newydd, Julia Platts, yn cadeirio gweithgor ar gyfer y Grŵp Cynghori Gwasanaeth Cenedlaethol (NSAG), tra bydd mewn bodolaeth, i flaengynllunio ar gyfer gwaith y Grŵp Gweithredu ar Ddiabetes Cymru Gyfan er mwyn gwella gwasanaethau pympiâu yng Nghymru.
- Dylid anelu at gydymffurfiaeth lawn â NICE. I'r perwyl hwn, mae angen archwiliad newydd, a byddai cofrestr ddiweddar / barhaus yn ddefnyddiol nes y bydd SCI Diabetes yn weithredol.
- Dylem gael gwasanaeth pympiâu ar gyfer Cymru gyfan, i fedru rhoi canllawiau i'r Byrddau Iechyd ac i gydlynw'r gwaith. Cydnabod ac ymestyn gwaith WEDS o bosibl?
- Angen adolygu nifer y nyrsys arbenigol diabetes a PDSNs, gan eu bod yn ganolog i unrhyw wasanaeth pympiâu effeithiol. Mae'r archwiliad presennol gan Lywodraeth Cymru (y soniodd Chris Dawson amdano yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 4 Mawrth 2014) eto i gyflwyno ei adroddiad, ac efallai y bydd angen ei ailystyried. Mae hyn ar agenda'r Grŵp Gweithredu ar Ddiabetes Cymru Gyfan (AWDIG) a'r Coleg Nyrsio Brenhinol.
- Dylai'r tri darparwr blaenllaw o bympiau (Medtronic, Roche & Animas / J & J) gael eu cynnwys yn y datrysiadau arfaethedig. Mae'n werth nodi bod cwmnïau pympiâu inswlin ar hyn o bryd yn rhan o agweddau ar ofal cleifion uniongyrchol, fel, cychwyn therapi pwmp inswlin i gleifion ac adolygu cleifion.
- Mae diffyg sgiliau pympiâu inswlin mewn llawer o dimau diabetes eu hunain. Bydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn anfon achosion cymhleth i Ganolfan Arbenigol

Lerpwl i gael gwasanaeth pypiau.

5. Unrhyw fater arall

Dyddiad y cyfarfod nesaf: **Dydd Mawrth 10 Chwefror 2015**